

15 Ebrill 2014

Mr J Powell
Pennaeth Rheoleiddio
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Annwyl John

Diolch i chi am eich adroddiad yn dilyn arolygiad dirybudd diweddar eich tîm yn Ysbyty Annibynnol New Hall. Diolch i chi hefyd am y sylwadau cadarnhaol iawn a wnaethoch. Croesewir y rhain yn fawr a hoffem ddiolch i chi a'ch tîm hefyd am wneud i'r staff deimlo'n gyfforddus ac am gynnal eich arolygiad heb amharu'n ormodol ar y gweithgareddau dyddiol nac ar ofal y cleifion. Cydnabyddwn y materion yr ydych chi wedi'u codi ac atodwn y cynllun gweithredu ffurfiol y gofynnwyd amdano. Os bydd arnoch angen eglurhad am unrhyw beth yn yr ymateb hwn, mae croeso i chi gysylltu â mi ac fe wnafeich cynorthwyo os gallaf.

Yn gywir

Kevin Shields
Unigolyn Cyfrifol

Ysbyty Annibynnol New Hall
Cynllun Gweithredu ar Adroddiad Arolygu AGIC 2014

Y mater sy'n peri pryder	Y sawl sy'n gyfrifol am gwblhau	Manylion y camau sy'n ofynnol	Canlyniad	Tystiolaeth
<p>1. Nid oedd yn briodol lleoli claf A yn New Hall a gofalwyd am y claf gyda 3 aelod staff. Aseswyd bod ar y claf angen lleoliad diogelwch canolig. Rhaid symud claf A i leoliad diogelwch canolig ar frys.</p>	<p>Rheolwr yr Ysbyty Rheolwr y Gwasanaeth</p>	<p>Lleoli Claf A mewn Uned Gofal Diogelwch Canolig</p>	<p>Lleolwyd Claf A yn Uned Diogelwch Canolig Tŷ Llewellyn</p>	<p>Ar 1^{af} o Ebrill 2014, symudwyd claf A i Uned Diogelwch Canolig Tŷ Llewellyn yng Ngogledd Cymru.</p>
<p>2. Archwiliom nifer o gofnodion cynlluniau gofal a gwnaed yr arsylwadau canlynol:</p> <p>a. Nid oedd cynlluniau gofal ar gyfer rhyddhau wedi'u sefydlu ar gyfer cleifion A, B, C na D.</p> <p>b. Roedd y siartiau arsylwol ar gyfer claf A yn cynnwys sylwadau amhriodol ac roedd llawer iawn heb eu llofnodi gan y nyrs â gofal.</p> <p>c. Nid oedd yr asesiadau risg/cynlluniau gofal ar gyfer cleifion B, C a D wedi'u gwerthuso yn unol â'r amserlenni a nodwyd.</p> <p>d. Nid oedd y nyrs â gofal wedi llofnodi'r cofnodion arsylwol ar gyfer claf B.</p> <p>Rhaid rhoi sylw i'r holl feysydd a restrir uchod.</p>	<p>Rheolwr y Gwasanaeth ac Uwch Nyrsys</p>	<p>Adolygu a rhoi sylw i bob cofnod gofal, asesiad risg a siart arsylwol.</p>	<p>Gwella safonau presennol y cofnodion gofal.</p> <p>a. Mae cynlluniau gofal ar gyfer rhyddhau yn awr wedi'u sefydlu ar gyfer y cleifion a nodir.</p> <p>b. Cynhaliwyd hyfforddiant mewnol arsylwol ychwanegol. Arweiniad ar gwblhau Siartiau arsylwol wedi'u codi mewn cyfarfodydd uwch nyrsys, mewn cyfarfodydd nyrsys staff, rheolwyr a chyfarfodydd goruchwylio.</p> <p>c. Roedd yr asesiadau risg/cynlluniau gofal ar gyfer cleifion oll wedi'u gwerthuso cyn i AGIC gwblhau ei arolygiad.</p> <p>d. Llofnododd y nyrs â gofal y siart arsylwol ar yr un diwrnod ag y gwelodd AGIC y</p>	<p>Archwiliad llawn wedi'i gwblhau ar</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gynlluniau gofal • Siartiau arsylwol • Asesiadau risg <p>Mae pob maes wedi cael sylw ac wedi'i unioni yn unol ag arweiniad AGIC.</p>

			gwall.	
<p>3. Wrth adolygu'r ystafell driniaethau/clinig ar ward Adferiad, gwelwyd y canlynol:</p> <p>a. Nid oedd yr ystafell dros dro yn addas at y diben. Roedd yr ystafell yn gyfyng, lleolwyd loceri'r staff yn yr ardal ac roedd yr ystafell yn llanast.</p> <p>b. Defnyddiwyd cypyrddau cegin i storio cyffuriau.</p> <p>c. Ni roddwyd inswlin i glaf E ar ddau achlysur ac ni chofnodwyd rheswm am beidio â'i roi.</p> <p>d. Roedd gan glaf F feddyginiaeth prn mewn stoc ond ni chafodd ei roi ers cryn amser. Mae angen adolygu'r feddyginiaeth hon.</p> <p>e. Cafodd y nyrs gofrestredig drafferth i osod y silindr ocsigen i'w ddefnyddio.</p> <p>f. Roedd y siart meddyginiaeth ar gyfer claf G yn ddryslyd. Nodai'r siart y dylid ei weinyddu'n fisol, er hynny, mae gan fisoedd nifer wahanol o ddyddiau ynddynt ac ni chafwyd dim esboniad gan y sawl a roddodd y presgripsiwn ynglŷn â hyn.</p>	Rheolwr y Gwasanaeth Uwch Nyrsys	Rhoi sylw i'r holl feysydd sy'n peri pryder.	<p>3 a. Mae Adferiad, er 2^{il} Ebrill 2014 wedi dychwelyd i'r ystafell glinig newydd. Mae'r ystafell glinig newydd wedi'i hadeiladu at y pwrpas ac mae digonedd o le ynddi. Nid oes dim loceri staff yn yr ardal.</p> <p>3 b. Mae cypyrddau'r ystafell glinig newydd yn rhai arbenigol, wedi'u hadeiladu'n bwrpasol ar gyfer ystafell glinig.</p> <p>3 c. Codwyd safonau rheoli meddyginiaeth mewn cyfarfodydd uwch nyrsys, mewn cyfarfodydd nyrsys staff, rheolwyr a chyfarfodydd goruchwyllo. Mae'r systemau archwilio rheolaidd wedi'u gwella.</p> <p>3 d. Mae'r feddyginiaeth hon bellach wedi'i hadolygu a'i hatal.</p> <p>3 e. Mae'r nyrs wedi cael hyfforddiant ychwanegol yn ystod arolygiad AGIC ac wedyn.</p> <p>3 f. Ail-ysgrifennwyd y cerdyn gweinyddu gan ei newid yn bob 4 wythnos.</p>	Rheolwr y Ysbyty a Rheolwr y Gwasanaeth wedi cynnal archwiliad llawn. Pob maes angenrheidiol wedi cael sylw.
4. Mae rhai ardaloedd o ward Glaslyn angen eu	Rheolwr y	Gwella glendid y ward.	Ar ôl yr arolygiad, cafodd y gegin	Archwiliwyd yr ardal gan

glanhau'n drylwyr. Ymysg yr ardaloedd yr oedd y popty/hob a llawr y gegin adsefydlu ynghyd â llawr cegin y llawr gwaelod a'r tostiwr.	Gwasanaeth Arweinydd Cymorth Busnes		adsefydlu ei glanhau'n drylwyr.	Reolwr y Gwasanaeth a'r Arweinydd Cymorth Busnes.
5. Mae gofyn darparu generadur er diogelwch cleifion a pharhad y gwasanaeth os ceir toriad yn y pŵer yn wardiau Clwyd/Adferiad. <i>Yn ystod y sesiwn adborth dywedwyd bod hyn wedi'i gynnwys yn y gwaith adeiladu.</i>	Rheolwr yr Ysbyty Rheolwr Ystadau	Cynnal y trydan mewn sefyllfa argyfwng	Fel rhan o'r gwaith adnewyddu, caiff Generadur newydd ei brynu a'i osod	Mehafin-Gorffennaf 2014
6. Rhaid gwneud gwaith trwsio yn y gegin ar ward Adferiad i orchuddio'r plastr sydd yn y golwg ac i drwsio'r gwaith coed.	Rheolwr y Gwasanaeth	Cynnal iechyd a diogelwch yr Ysbyty	Nid yw'r cleifion na'r staff yn dod i'r ardal hon nac yn ei defnyddio mwyach. Gosodwyd cegin osod newydd.	Gosodwyd cegin newydd yn lle'r hen un ar 1 ^{af} Ebrill 2014
7. Nid oedd y wybodaeth ofynnol am gyflogaeth yn ffeil bersonél y Cyfarwyddwr Meddygol. Rhaid i'r wybodaeth am gyflogaeth staff sy'n ofynnol dan y rheoliadau fod ar gael.	Rheolwr yr Ysbyty Arweinydd Cymorth Busnes	Cynnal safonau'r ysbyty o safbwynt ffeiliau personol.	Cwblhawyd yr holl ddogfennau ac fe'u rhoddwyd yn y ffeil bersonol.	Archwilio'r ffeil.
8. Sefydlwyd system ar gyfer goruchwyllo staff er hynny rhaid gwella'r presenoldeb yn y system hon. Rhaid gweithredu system o oruchwyllo yn gyson ar gyfer pob aelod staff.	Rheolwr yr Ysbyty Rheolwr y Gwasanaeth	Roedd canran gyfredol y staff oedd yn derbyn goruchwyllo yn Ysbyty Annibynnol New Hall yn 75% adeg arolygiad AGIC.	Mae'r ystadegau goruchwyllo wedi codi o 75% i 95% ar ôl arolygiad AGIC.	Cynyddodd canran y staff sy'n derbyn goruchwyllo 20% rhwng Chwefror a Mawrth 2014 fel y dilyswyd yn y Cyfarfod Llywodraethu Clinigol.
9. Rhaid gwella'r profiad bwyta i gleifion. Gweinir brechdanau mewn bagiau papur ac roedd yr opsiynau brechdanau i'w gweld yn amlwg ar y fwydlen. Rhaid gwella'r profiad bwyta cyflawn er mwyn gwella'r cyfle therapiwtig rhwng cyfoedion, staff a chleifion.	Rheolwr yr Ysbyty Rheolwr y Gwasanaeth	Gwella'r profiad bwyta presennol i'r cleifion.	Mae Staff y wardiau a'r cleifion yn bwyta yn yr un ardal fwyta. Caiff brechdanau eu gweini gyda salad gan staff y ward. Ceir yn awr bedwar dewis ar y fwydlen, gan gynnwys dewis llysieuol a dewis ar gyfer diet arbennig os yn berthnasol.	Mae'r tîm arlwyo wedi newid y fwydlen ac yn cyflenwi salad i fynd gyda'r brechdanau.